Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Maenclochog

**Maenclochog**
**Clunderwen**
**Sir Benfro**
**SA66 7LB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Maenclochog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Maenclochog |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 102 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 79 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 7.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 10.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/05/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2024 |
| Mae ysgolion Maenclochog a Brynconin wedi'u ffederaleiddio ers 2020 ac fe benodwyd y pennaeth i'r swydd yn Ionawr 2022. Mae arweinyddiaeth ddoeth a chadarn y pennaeth, mewn cydweithrediad â'r llywodraethwyr a staff, wedi datblygu cymuned ddysgu effeithiol yn y ddwy ysgol. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Maenclochog ac Ysgol Brynconin wedi'u ffederaleiddio ers 2020. Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mewn cydweithrediad â'r llywodraethwyr a staff, wedi datblygu cymuned ddysgu effeithiol o fewn y ddwy ysgol.

Mae'r ysgol yn gymuned lwyddiannus sy'n dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i sicrhau ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau'r disgyblion at ei gilydd, ac at bobl eraill o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

Mae staff yn arddel iaith yn fwriadus a brwdfrydig sy'n cael effaith gadarn ar fedrau llafar y disgyblion o oedran ifanc. O ganlyniad, mae defnydd a balchder y disgyblion o ran y Gymraeg yn rhinwedd hynod effeithiol. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus ar draws y ddwy ysgol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu a chwarae ysgogol i ddisgyblion. Mae balchder y disgyblion o ran hanes a diwylliant yr ardal leol yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedran a'u mannau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau gwrando, llafar a mathemateg yn fwriadus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn hyderus. Er hyn, nid yw medrau ysgrifennu annibynnol y disgyblion wedi'u datblygu'n ddigon cadarn.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n ymateb i ofynion ystod gallu'r disgyblion yn briodol ac yn sicrhau eu hymglymiad yn eu dysgu yn dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn herio'r disgyblion i'w cefnogi i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad.

Mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â bywyd yr ysgol yn ogystal â chyfrannu syniadau am gynnwys eu dysgu. Er enghraifft, penderfynodd aelodau'r Senedd y dylai pob dosbarth gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored fel rhan o'r Dydd Gwener Gwyllt.

Mae cyfleoedd bwriadus i aelodau'r corff llywodraethol, mewn cydweithrediad â staff, gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso sy'n cynnwys ymweld â dosbarthiadau, trafod gyda disgyblion a chraffu ar eu gwaith. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn drwyadl ac yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn fwriadus.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn hynod gadarn. Mae rhieni'n  falch bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i gymuned wledig ardal Maenclochog.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Darparu gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu, rhif a chymdeithasol da. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf mewn llawer o'u medrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando a chyfrannu'n effeithiol yn ystod cyflwyniadau dosbarth ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd ac oedolion. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn sgwrsio'n hyderus yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft darganfod mwy am suddo ac arnofio wrth arbrofi â gwahanol wrthrychau yn y twba dŵr. Mae'r disgyblion hynaf yn cyfathrebu'n hyderus, ac yn defnyddio ystod eang o eirfa berthnasol a phatrymau iaith yn gynyddol gywir wrth rannu eu syniadau mewn trafodaethau, er enghraifft wrth rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfesurynnau daearyddol wrth gwblhau gwaith mapio lleoliadau Sir Benfro.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n addas yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos brwdfrydedd amlwg tuag at lyfrau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos hyder cynyddol wrth ddarllen ar goedd. Maent yn defnyddio dulliau defnyddiol i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus a dechrau adnabod pwrpas atalnod llawn ac ebychnod. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn darllen amrywiaeth dda o destunau yn hyderus. Maent yn cymeriadu'n effeithiol ac yn rhagfynegi'n aeddfed yn y ddwy iaith. Er hyn, mae ychydig o ddisgyblion yn cael trafferth deall cynnwys testunau Cymraeg sy'n amharu ar eu gallu i drafod y cynnwys yn fanwl.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol wrth greu marciau mewn toes, reis ac wrth beintio, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ffurfio llythrennau'n gywir, yn cyflwyno eu gwaith yn raenus ac yn adeiladu geiriau a brawddegau syml â chywirdeb. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn ysgrifennu darnau sy'n gynyddol estynedig, er enghraifft drwy

ysgrifennu llythyr emosiynol adre gan faciwi. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig addas gyda dealltwriaeth gynyddol o nodweddion iaith; er enghraifft, maent yn paragraffu'n briodol ac yn defnyddio enghreifftiau o dafodiaith leol i greu darlun effeithiol o dirwedd 'Mynyddoedd Maenclochog' wrth ysgrifennu stori ddychmygol. Mae ganddynt ddealltwriaeth elfennol o wahanol dechnegau ysgrifennu, gan gynnwys y defnydd o ddyfynodau ac ebychnod, er mwyn arwain y darllenwyr. Er hyn, nid yw llawer o ddisgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn ystod ddigon eang o ffurfiau yn ddigon annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemateg cadarn gan ddefnyddio dulliau trin rhif yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 1000 ac yn adnabod enwau a phriodweddau siapiau 2 a 3 dimensiwn yn hyderus, er enghraifft wrth ddysgu am nodweddion cestyll Cymru. Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle hyd at filiwn ac maent yn hyderus i newid ffracsiynau cyfatebol i ffracsiynau yn eu ffurf symlaf. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol o ran eu dealltwriaeth fathemategol. Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n bwrpasol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol mewn ystod o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen ddigidol yn hyderus i gofnodi eu dysgu, er enghraifft trwy ddefnyddio rhaglen animeiddio i adrodd stori a datblygu medrau rheoli syml gyda'r crwban. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu eu medrau wrth greu ffilm o gyfweliad gyda thywysoges yn ystod oes Llywelyn ein Llyw Olaf, er enghraifft. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus i gefnogi ymchwil annibynnol gan olygu, ailddrafftio a chyflwyno eu canfyddiadau am waith thema'r Ail Ryfel Byd. Maent yn trin data'n hyderus am uchder mynyddoedd y Preselau ac yn dechrau datblygu eu medrau codio i reoli teclynnau digidol i oleuo. Mae disgyblion yn cadarnhau a deall dulliau cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae bron bob un yn mwynhau gweithgareddau celf ac yn gwneud dewisiadau bwriadus wrth ddethol cyfryngau gwahanol i gyfleu gwaith diddorol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio poteli dŵr i greu alawon yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o berfformio'n rheolaidd mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu eu medrau cyflwyno yn dda mewn clipiau digidol sy'n cefnogi eu gwaith yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol gyda hyder cynyddol. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau chwaraeon ac yn dangos medrau da wrth chwarae gyda chyfoedion. Er enghraifft, maent yn dangos brwdfrydedd amlwg wrth ddatblygu eu medrau taflu ac anelu yn ystod sesiwn ddysgu.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn amgylchedd cynhwysol ac ysgogol yr ysgol. Mae bron bob un yn falch iawn o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi'r

ystod gyfoethog o brofiadau a ddarperir ar eu cyfer. Caiff hyn ei adlewyrchu ym mrwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog ac yn dangos cwrteisi a gofal at ei gilydd ac oedolion. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth glir o’r gwerthoedd hanfodol sy’n cyfrannu at eu datblygiad fel unigolion cyflawn a dinasyddion cyfrifol a gwybodus. Mae’r modd mae’r disgyblion hynaf yn gofalu ac yn manteisio ar gyfleoedd i gefnogi’r disgyblion ieuengaf gyda’u darllen yn adlewyrchu hyn yn effeithiol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol â thestunau dosbarth. Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymgyfarwyddo’n gyflym â threfniadaeth dosbarth wrth ddewis gweithgareddau mewn gwahanol ardaloedd o’r ddarpariaeth. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn arddangos cymhelliant a chwilfrydedd yn eu dysgu. Maent yn datblygu gwydnwch cynyddol wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd. Maent yn deall yr egwyddor o geisio datrysiad eu hunain pan ddônt ar draws anawsterau yn eu dysgu. Maent yn gweithredu dull ‘HACA’ (Hunain, Adnoddau, Cyfoedion, Athrawon) wrth ymateb i heriau gyda’u dysgu, sy’n cryfhau eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol yn effeithiol.

Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, ac maent yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig wrth gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn eu themâu. Mae llawer yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu, er enghraifft drwy gymryd rhan weithredol wrth wirio eu gwaith eu hunain. Mae’r rhan fwyaf yn dechrau ymateb yn gadarnhaol i adborth athrawon a chynorthwywyr wrth gymryd camau i wella a mireinio eu gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau yn gyson. Mae llawer yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o gyfrifoldebau Senedd y disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth esbonio effaith eu gwaith ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn siarad yn frwdfrydig am ddylanwad y cabinet lles ar yr ymgyrch lwyddiannus i wella cyfraddau presenoldeb yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ofalu am eu lles meddyliol ac emosiynol. Maent yn datblygu’r gallu a’r hyder i drafod a rhannu eu teimladau, sy’n gymorth iddynt ddeall a dangos empathi at eraill mewn cyfyngder. Maent yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol yn dda, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol ddathliadau crefyddol. Maent yn dechrau deall materion moesegol sy’n wynebu’r byd, fel effaith andwyol gwastraff ar yr amgylchedd. Mae disgyblion yn dyfnhau eu dealltwriaeth o hyn yn llwyddiannus wrth ymgymryd â phrosiectau amgylcheddol ar draethau’r ardal.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth sy’n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn deall pwysigrwydd deiet cytbwys ac am yr angen i gadw’r corff a’r meddwl yn iach. Maent yn gwneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn maent yn ei fwyta ac yfed a’u ffordd o fyw, er enghraifft wrth yfed dŵr yn rheolaidd a mynychu sesiynau coginio bwydydd iach gyda’u rhieni yn yr ysgol. Maent

yn ymrwymo’n frwdfrydig i’w sesiynau corfforol ac i ystod o weithgareddau hybu ffitrwydd, fel y clybiau chwaraeon a chystadlaethau gwahanol gampau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau cadw’n ddiogel, gan gynnwys cadw’n ddiogel ar-lein. Maent yn cymhwyso hyn yn effeithiol wrth gyflawni eu gweithgareddau dysgu.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff berthynas waith agos a chynnes â’r disgyblion. Maent yn trin pob disgybl gyda charedigrwydd a pharch, ac o ganlyniad, mae’r amgylchedd dysgu yn gynhwysol a gofalgar.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng staff ar draws ysgolion y ffederasiwn. Maent yn rhannu syniadau’n fwriadus i ddarparu cwricwlwm eang a chyfoethog i’r disgyblion. Maent yn ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn synhwyrol sydd, yn ei dro, yn gwella’r addysgu a’r dysgu yn fedrus. O ganlyniad, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr ac ysgogol ar draws y meysydd dysgu sy’n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cynnwys y cwricwlwm yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfle teg i ddatblygu unigolion hyderus a chyflawn. Mae athrawon yn gwrando a gweithredu ar syniadau’r disgyblion yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau a phrofiadau sy’n dilyn eu diddordebau. Er enghraifft, wrth iddynt arwain trywydd eu themâu a chyfrannu syniadau gwerthfawr at eu profiadau dysgu.

Mae’r cwricwlwm yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol mewn gwrando, siarad, darllen a mathemateg mewn sesiynau dysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae’r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan i’r adeilad, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion chwarae, dysgu ac ymchwilio mewn amgylchedd diddorol. Mae arddangosfeydd deniadol, sy’n gyfuniad addas o ddathlu gwaith disgyblion ac arweiniad i gefnogi eu dysgu, yn cyfoethogi’r amgylchedd dysgu yn effeithiol.

Mae staff yn gwahodd ymwelwyr i’r ysgol i sbarduno disgyblion ac yn trefnu teithiau ac ymweliadau sy’n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn cyflwyno gwybodaeth am y Celtiaid ar gyfer y cyhoedd yn dilyn ymweliad i Foel Drygan fel rhan o brosiect gyda Pharc Cenedlaethol Sir Benfro. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio gyda, a dysgu am, artistiaid ac enwogion lleol sy’n gwella eu dealltwriaeth o ddiwylliant yr ardal.

Mae gan staff ddyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg disgyblion. Maent yn arddel iaith goeth sy’n cefnogi disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg yn gynyddol gywir. Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i ymestyn geirfa’r disgyblion yn ystod gweithgareddau, gan gynnwys wrth iddynt ddysgu yn yr awyr agored.

Mae staff yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol a diddorol sy'n sicrhau diddordeb a brwdfrydedd disgyblion yn eu gweithgareddau. Ar y cyfan, mae eu gweithgareddau yn ymateb i ofynion ystod gallu disgyblion yn briodol ac yn sicrhau eu hymglymiad yn dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad. Mae athrawon yn cyflwyno gwybodaeth yn glir ac yn darparu arweiniad pwrpasol i ddisgyblion gyflawni eu gweithgareddau. Maent yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol ac yn eu hannog i lwyddo.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fwynhau ac ymgysylltu â'u dysgu mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Mae sesiynau wythnosol yn yr awyr agored yn ystod dyddiau Gwener Gwyllt yn annog chwilfrydedd disgyblion ac yn datblygu eu medrau cydweithio a datrys problemau yn fwriadus. Yn ogystal, mae staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i ddisgyblion ar draws yr ysgol ar ôl amser ysgol. Yn ystod y gweithgareddau, mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau coginio, a chreu a gwella eu medrau cymdeithasol wrth chwarae gemau bwrdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.

Mae staff yn darparu cyfleodd bwriadus i ddisgyblion drafod a gwella eu gwaith fel rhan annatod o'r dysgu. Mae athrawon yn cynnig adborth pwrpasol sy'n cynnig arweiniad cadarn i ddisgyblion ar elfennau amrywiol o'u gwaith. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn ymateb yn briodol i'r adborth hwn. Mae staff yn holi disgyblion er mwyn ymestyn eu dysgu yn effeithiol. Yn yr arfer orau, maent yn cefnogi disgyblion yn werthfawr i werthuso eu cyflawniadau wrth ystyried y camau nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cymorth a her i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen yn fedrus. Maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am les a chynnydd gyda'r rhieni mewn adroddiadau ac yn darparu arweiniad iddynt ar gyfer cefnogi eu plant i anelu at gyrraedd cam nesaf eu datblygiad.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n rhoi pwyslais clir ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo eu lles yn effeithiol. Mae perthynas waith gyfeillgar rhwng y staff a'r disgyblion ac mae'r parch a ddangosant tuag at ei gilydd yn gryfder. Mae staff yn gweithio'n agos fel tîm i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol bron bob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn llwyddiannus i'w hanghenion. Er enghraifft, maent yn trafod emosiynau disgyblion yn gyson i sicrhau eu bod yn barod i ddysgu yn ystod y dydd.

Mae ymddygiad disgyblion yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion i ddatblygu dulliau hunanreolaeth sy'n eu galluogi i adnabod a rheoli eu hemosiynau. Mae trefniadau fel datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gynnal perthnasoedd iach yn sicrhau bod ymddygiad disgyblion yn ardderchog.

Darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol trwy sesiynau addysg gorfforol wythnosol a thrwy'r defnydd buddiol o adnoddau iard cyffrous. Mae gweithgareddau bwriadus yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i fwyta'n iach. Er enghraifft, mae aelodau'r cabinet Iechyd a Lles yn cynnal y siop ffrwythau gyda

chynnyrch o’r siop leol yn llwyddiannus, sy’n cyfrannu dda at ddealltwriaeth y disgyblion o fyw’n iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn briodol. Mae’r cydlynydd ADY a’r staff yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion penodol. Mae cynorthwywyr yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol yn ystod y sesiynau cefnogi llythrennedd a rhifedd, sy’n eu galluogi i ddangos cynnydd yn eu gwaith dros gyfnod o amser. Mae staff yn gweithio’n gynhyrchiol gyda phartneriaethau allanol i ddarparu gweithgareddau penodol a sesiynau cymorth i ddisgyblion penodol a’u teuluoedd.

Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu’n uniongyrchol ar benderfyniadau sy’n ymwneud â bywyd yr ysgol, yn ogystal â chyfrannu syniadau am gynnwys a thrywyddau themâu'r dosbarth. Er enghraifft, mae aelodau’r Senedd wedi penderfynu bod holl aelodau’r dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ar ddydd Gwener Gwyllt.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu a datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, eu treftadaeth a’u diwylliant. Mae cyfleoedd i’r disgyblion astudio nodweddion hanesyddol a daearyddol yr ardal yn agwedd hynod lwyddiannus o waith yr ysgol. Er enghraifft, trwy ddysgu am hanes brwydr y Preselau fel rhan o’u gwaith am yr Ail Ryfel Byd a chasglu sbwriel i ddysgu am effaith plastig ar fyd natur ar Draeth Mawr. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio mewn ystod o sefyllfaoedd, er enghraifft drwy gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol a pherfformio mewn cyngherddau yn eglwysi a chapeli'r ardal. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn hanes yr ardal a’u Cymreictod ac yn hyderus i berfformio’n gyhoeddus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am waith pobl ddylanwadol yng Nghymru ac ar draws y byd, er enghraifft wrth ddysgu am ddylanwad Betty Campbell ar addysg yng Nghymru. Mae’r profiadau hyn yn cyfrannu’n gyson at agweddau’r disgyblion i barchu gwahaniaethau a’u datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a deallus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol grefyddau, er enghraifft wrth ddysgu am wahanol wyliau Diwali a Ramadan, a thrwy ddathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o arwyddocâd dathliadau diwylliannau a chrefyddau eraill. Darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio yn ystod gwasanaethau a sesiynau dysgu ar sut maent yn gallu helpu eraill.

Mae diwylliant diogelu’r ysgol yn gadarn, ac mae staff yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau, sy’n cyfrannu at ddiogelwch a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb da a phwysigrwydd prydlondeb ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro cyfraddau’n ddyddiol. Mae staff yn cyfathrebu’n rheolaidd â rhieni ac yn trefnu gweithgarwch dilynol wedi’i gefnogi gan yr awdurdod lleol, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Ysgol Maenclochog ac Ysgol Brynconin wedi'u ffederaleiddio ers 2020, a phenodwyd y pennaeth i'r swydd yn Ionawr 2022. Mae arweinyddiaeth ddoeth a chadarn y pennaeth, mewn cydweithrediad â'r llywodraethwyr a staff, wedi datblygu cymuned ddysgu effeithiol o fewn y ddwy ysgol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ethos gofalgar a chefnogol lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu i fod yn aelodau cydwybodol o gymuned Maenclochog. Maent yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Gyda'n gilydd - dim ond y gorau' yn llwyddiannus, ac yn hyrwyddo gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u diwylliant.

Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddatblygu tîm o staff gweithgar a chefnogol, ac i hyrwyddo lles staff mewn modd cynhaliol ac ymarferol. Mae staff yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol yn dda sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth a sicrhau bod cydweithio effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau'r ysgol. Mae'r cydweithio sy'n bodoli ar draws y ddwy ysgol o fewn y ffederasiwn, a gyda staff ysgolion yr ardal, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar addysg y disgyblion.

Dan ofal medrus y pennaeth, mae gweithdrefnau arweinyddiaeth wedi'u sefydlu'n hynod effeithiol ar draws y ddwy ysgol. Mae'r gweithdrefnau'n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu ehangach. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio'n bwrpasol i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyflwyno egwyddorion Cwricwlwm i Gymru a gweithredu elfennau allweddol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn effeithiol. Mae'r cynorthwywyr yn aelodau allweddol o dîm yr ysgol, sy'n cyfrannu'n fwriadus at wella cynnydd ym medrau sylfaenol disgyblion, eu lles a'u medrau cymdeithasol. Mae staff yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus sy'n cyfrannu at ddatblygu balchder disgyblion at eu hiaith a'u treftadaeth.

Mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella wedi'u seilio ar amrediad priodol o dystiolaeth uniongyrchol, ac mae dealltwriaeth y staff ohonynt yn gadarn. Mae gweithdrefnau effeithiol wedi'u sefydlu i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella ac adnabod camau i'w gweithredu. Maent yn cynnwys dadansoddiad o ddeilliannau a chynnydd disgyblion, a chyfleoedd synhwyrol i graffu ar waith ac arsylwi sesiynau dysgu. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yn adnabod eu hysgol yn drwyadl ac yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gwelliannau yn fwriadus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ystyried gwybodaeth ddefnyddiol am effaith gweithdrefnau gwella'r ysgol ar y ddarpariaeth ac am les a chynnydd disgyblion. Darperir cyfleoedd cyson iddynt gymryd rhan weithredol yn y broses hunanwerthuso, gan gynnwys ymweld â dosbarthiadau, trafod gyda disgyblion a chraffu ar waith disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn cwestiynu'r ysgol ynghylch materion addas, gan gynnwys agweddau o'r dysgu sydd angen eu datblygu. Mae llywodraethwyr yn cydweithio â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymfalchïo yn y bartneriaeth ragweithiol sy'n bodoli ar draws y ddwy ysgol.

Mae gwariant yn cysylltu’n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i godi a chynnal safonau disgyblion. Maent yn cysylltu gwariant yn briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ac yn monitro’r cyllid yn ofalus i sicrhau’r defnydd gorau ohono. Mae arweinwyr yn cynllunio gwariant y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol, sy’n cynnwys darparu rhaglenni cefnogi wedi’u teilwra at anghenion dysgu ac emosiynol unigolion. Mae gan arweinwyr gynlluniau perthnasol i ddefnyddio grantiau i leihau effaith tlodi ar ddisgyblion a’u teuluoedd. Enghraifft dda o hyn yw’r modd maent wedi addasu cynnwys y polisi gwisg ysgol i leihau cost i deuluoedd.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn cynnwys cyfleoedd i gael hyfforddiant i wella’u dealltwriaeth o ofynion gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, i ddysgu am egwyddorion lles staff a disgyblion, a chael hyfforddiant am agweddau penodol o ddulliau cefnogi disgyblion ag ADY. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn hyrwyddo dysgu proffesiynol staff yn addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion a’r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol berthynas weithredol â’r ysgolion uwchradd lleol ac ysgolion cynradd yr ardal, sy’n cynnwys darparu cyfleoedd buddiol i athrawon gydweithio wrth sicrhau dilyniant ym medrau allweddol y disgyblion fel rhan o’r broses o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa o brofiadau cyfoethog sy’n eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r berthynas rhwng yr ysgol a’r rhieni yn hynod gadarn. Mae staff yn cyfathrebu’n effeithiol â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau o ddydd i ddydd ac i rannu gwybodaeth am gyflawniadau a llwyddiannau eu plant. Mae’r rhieni yn falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol mor gefnogol sy’n gwbl ganolog i gymuned wledig ardal Maenclochog

.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2024